COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 26 MEDI 2024 AM 10:00

Yn bresennol

G Chapman – Cadeirydd (aelod lleyg)

| | | | |
|---|---|---|---|
| M L Hughes | R M Granville | N Clarke | C Davies |
| S Easterbrook | R J Smith | | |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | |
|---|---|
| M J Williams | S J Griffiths |

Aelodau Lleyg - yn Bresennol

B Olorunnisola

Aelodau Lleyg - yn Bresennol yn Rhithiol

Deb Austin

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

A Bagley

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Sara-Jane Byrne | Archwilio Cymru |
| David Williams | Archwilio Cymru |
| Charles Rigby | Archwilio Cymru |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd / Swyddog Craffu Dros Dro - Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant

Dim

## 170. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 19 Gorffennaf 2024 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

## 171. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu diweddariad i'r Aelodau ar Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Mae'n ceisio diweddaru Aelodau ar gamau gweithredu dilynol neu wybodaeth bellach y gwnaed cais amdani ar adroddiadau sydd wedi eu hystyried gan Aelodau a/neu y gwnaed cais gan y Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall mewn perthynas ag eitemau agenda blaenorol. |

| | |
|---|---|
| | Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth ystyried mater 'llywodraethu' ar draws y Cyngor, a ph'un a ddylai'r Pwyllgor fod yn fwy rhagweithiol wrth fynd i'r afael â materion gan alw cyfarwyddwyr a rheolwyr gwasanaeth i mewn i roi cyfrif am broblemau oedd wedi'u hadnabod gyda darparu'r gwasanaeth.<br>• Y berthynas rhwng y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r pwyllgorau craffu a'r angen am broses fwy ffurfiol ar gyfer adrodd rhyngddynt. Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd ynghylch y berthynas rhwng y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r pwyllgorau craffu, nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (DSM) y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal rhwng y Cadeiryddion Craffu a Chadeirydd Llywodraethu ac Archwilio er mwyn cytuno ar broses ffurfiol ar gyfer adrodd rhwng y Pwyllgorau ac i ddatblygu perthynas waith rhyngddynt i sicrhau gweithio effeithiol ac osgoi dyblygu rhwng eitemau.<br>• Bod mater Harbwr Porthcawl wedi cael ei ystyried yn rhan o'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef gan y Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb (BREP) yn 2023-24.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor y Pwynt Gweithredu gan ddarparu sylwadau arno, fel yr oedd yn briodol.<br><br>Y byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu cyfarfod rhwng y Cadeiryddion Craffu a Chadeirydd Llywodraethu ac Archwilio fel y manylir uchod. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

**172. Adroddiadau Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Archwilio Cymru**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor gan Archwilio Cymru. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu manylion am yr Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol yr ymgymerwyd ag o gan Archwilio Cymru.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • P'un a oes gan y Cyngor y gallu i wneud penderfyniad i fynd i'r afael â'r sefyllfa gyllidebol bresennol a symud i ffwrdd oddi wrth dafellu pob gwasanaeth yn denau er mwyn gallu gwneud penderfyniadau strategol mawr i greu Cyngor mwy cynaliadwy.<br>• Bod yr holl friffio ar gyfer y grŵp Aelodau wedi digwydd ar y sefyllfa'r gyllideb a bod proses y Panel Ymchwil a Gwerthuso'r Gyllideb ar waith. Bod yr holl Aelodau i dderbyn papur meincnodi allanol o Awst 2023, oedd yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses BREP yn 2023-24.<br>• Y gwerth posib o archwilio p'un a fyddai cydweithrediad a dull o weithio mwy cydweithredol gydag awdurdodau lleol eraill yn helpu'r Cyngor i feddwl yn ofalus am benderfyniadau.<br>• Nad oedd yna, yn syml, ddigon o arian yn y system i gynnal gwasanaethau.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor Adroddiadau Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Archwilio Cymru yn **Atodiad A** ynghyd â Ffurflen Rheoli Ymateb y Cyngor yn **Atodiad B**.<br><br>Cytunwyd y byddai adroddiad Archwilio Cymru ar gymryd penderfyniadau yn y Cyngor yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r agenda ar gyfer y Pwyllgor fyddai'n cyfarfod fis Tachwedd.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor am i'r argymhellion o'r adroddiad cynaliadwyedd ariannol gael eu hychwanegu at yr olrheiniwr rheoleiddio. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

**173. Datganiad Drafft o Gyfrifon 2023-24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda'r Datganiad Cyfrifon oedd heb eu harchwilio ar gyfer 2023-24 oedd wedi'u hatodi yn Atodiad A. Roedd y Datganiad Drafft o Gyfrifon wedi'i gwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r Cyfrifon drafft yn awr yn cael eu harchwilio gan Archwilio Cymru a'u bwriad yw cyflwyno'r cyfrifon terfynol sydd wedi'u harchwilio i gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Llywodraeth ac Archwilio ym mis Tachwedd 2024.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | • Mater rheidrwydd a'r angen i ychwanegu diffiniad ohono yn yr adroddiad.<br>• Cynnydd yn y cyfraniadau i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a chyfansoddiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.<br>• Yr angen am wybodaeth bellach ynghylch statws rhwymiadau cynllun pensiwn sydd heb eu hariannu.<br>• Cynaliadwyedd tymor byr a thymor canolig cronfeydd wrth gefn y Cyngor.<br>• Y risgiau sy'n gysylltiedig gyda pheidio â darparu cyllideb gytbwys ac effaith hynny ar wasanaethau i ddinasyddion a chymunedau yn y tymor canolig.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor Ddatganiad Cyfrifon 2023-24 nas archwiliwyd yn **Atodiad A:**<br><br>Dynododd Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd y byddai gwybodaeth bellach am rwymedigaethau cynlluniau pensiwn oedd heb eu hariannu yn cael eu cylchredeg i Aelodau.<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor gais am i'r pwyllgor craffu ymgymryd ag adolygiad o berthynas ariannol y Cyngor gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

**174. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a LlywodraethuDdatganiad o Gyfrifon Blynyddol 2023-24 (AGS) i'w gymeradwyo a'i gynnwys o fewn y Datganiad o Gyfrifon nas archwiliwyd ar gyfer 2023-24. Atodwyd y Datganiad o Gyfrifon Blynyddol yn **Atodiad A.**<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Y gwelliannau sydd wedi'u gwneud mewn llywodraethu oddi ar 2022-23.<br>• Y problemau sylweddol gafodd eu hadnabod yn 2023-24 a fydd yn cael eu delio â hwy yn 2024-25. |

| | |
|---|---|
| | • Y byddai'r adroddiad ar ei ennill o fod â naratif ar y camau gweithredu a gymerwyd er mwyn mynd i'r afael a'r chwe dewis sicrwydd cyfyngedig.<br>• P'un a fyddai'n bosib defnyddio gwahanol liwiau ar gyfer y tablau.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yn **Atodiad A** a chytuno i'w gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon 2023-24 nas archwiliwyd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

**175. Cynnydd yn Erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad hwn oedd darparu datganiad sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio o fewn y Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg 2024-25 a gymeradwywyd.<br><br>Mae crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun archwilio mewnol fel ag o 31ain Gorffennaf 2024 wedi'i amlinellu yn Atodiad A. Mae'n dangos bod naw adolygiad archwilio a gynlluniwyd wedi eu cwblhau sy'n cyfateb i gyfradd gwblhau o 24%.<br><br>Yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol, rhoddwyd barn archwiliad i bob un o'r naw archwiliad: pob *Sicrwydd Sylweddol* neu *Resymol*, dim opsiynau *Sicrwydd Cyfyngedig*.<br><br>Wedi'u cynnwys o fewn y cynllun 2024-25 mae chwe adroddiad nas ymgymerwyd â hwy ac na chafodd eu cwblhau yn 2023-24. Mae Atodiad B yn dangos statws yr archwiliadau hyn; mae pedwar wedi'u cwblhau ac mae'r ddau arall ar waith.<br><br>Gwnaed cyfanswm o bump ar hugain o argymhellion hyd yn hyn i wella'r amgylchedd rheoli. Mae'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn gweithredu'r rhain yn cael eu monitro'n gyson gan Archwilio Mewnol a'u hadrodd i'r Pwyllgor. |

| | |
|---|---|
| | Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Y gwaith o adolygu'r defnydd a wneir o staff asiantaeth ar draws y Cyngor, gan gynnwys caffael, taliadau a threfniadau presennol gan gynnwys yr awdurdod i ymestyn contractau.<br>• Y gwaith i ddarparu sicrwydd bod y systemau i reoli ariannu o'r gronfa ffyniant gyffredin yn gadarn ac effeithiol, gan gynnwys y prosesau sydd yn eu lle ar gyfer derbyn ariannu, cymeradwyo ariannu a gwariant a llywodraethu gwneud penderfyniadau.<br>• P'un ai a yw rhannu arfer da ac arfer gorau o adroddiadau yn cael ei ddosbarthu ar draws gweddill y gwasanaethau, a sut y gwneir hynny, er mwyn gyrru diwylliant o welliant parhaus.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol yn Seiliedig ar Risg 2024-25. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

**176. Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd darparu datganiad sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar argymhellion archwilio mewnol sydd wedi eu gwneud i adnabod y rhai sydd wedi eu gweithredu a'r rhai sydd yn hwyr. Cafodd datganiad sefyllfa mewn perthynas ag argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed, a gafodd ei rhoi ar waith ac a oedd yn hwyr ers 31 Gorffennaf 2024 eu manylu arnynt yn Atodiad A.<br><br>Gwnaed argymhelliad i wella gwendid gafodd ei adnabod i liniaru'r risg a nodwyd, felly hyd nes y bydd yr argymhelliad yn cael ei weithredu, mae'r risg yn parhau.<br><br>Gwnaed cyfanswm o ddeunaw argymhelliad blaenoriaeth canolig yn dilyn diwedd yr archwiliadau o gynllun blynyddol eleni. Mae'r cyfan wedi cael eu cytuno arnynt.<br><br>Roedd un argymhelliad hwyr gyda blaenoriaeth uchel a wnaed cyn 2024-25 ac mae'r cynnydd yn parhau i gael ei fonitro. Ceir manylion amdanynt yn Atodiad B. |

| | |
|---|---|
| | Roedd yna hefyd bum argymhelliad a wnaed mewn archwiliadau a gwblhawyd yn ystod 2022-23 oedd yn parhau i fod â dyddiad cwblhau yn y dyfodol. Ceir manylion amdanynt yn Atodiad C.<br><br>Ymgymerir â monitro'r argymhellion yn rheolaidd gan y tîm Archwilio ac mae unrhyw ohirio neu broblemau gormodol yn cael eu hamlygu i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Yr argymhelliad blaenoriaeth uchel hwyr, yn ymwneud â gorfodi parcio, a wnaed cyn 2024-25.<br>• Y broses o godi ar gyfer monitro argymhellion.<br>• Pwysigrwydd diogelwch seibr a'r heriau'n gysylltiedig gyda recriwtio uwch swyddogion i swyddi mewn llywodraeth leol.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys yr adroddiad ac ystyriwyd y wybodaeth a ddarparwyd o ran statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br><br>Bod disgwyl i'r Cyfarwyddwr cyfrifol a/neu benaethiaid gwasanaeth gwblhau'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt oedd eto i'w cyflawni erbyn y dyddiad cwblhau a nodwyd yn yr atodiadau, ac os na wneir hynny, bydd gofyn iddynt fynychu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nesaf, ynghyd â'r Aelod Cabinet perthnasol i egluro pam nad yw'r camau wedi eu gweithredu.<br><br>I'r perwyl hwnnw, dylai'r Aelod Cabinet, y Cyfarwyddwr a/neu benaethiaid gwasanaeth sy'n gyfrifol am orfodaeth parcio fynychu'r cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

**177. Hunanasesiad Gwybodaeth a Sgiliau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr wybodaeth adborth o'r |

| | |
|---|---|
| | holiadur hunanasesiad a ddarparwyd gan Aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd yn sail i ddatblygu rhaglen ddysgu a datblygu ar gyfer y Pwyllgor.<br><br>Mae sefydlu rhaglen hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn hyderus ac yn effeithiol.<br><br>Cafodd holiadur hunanasesiad, yn seiliedig ar gyhoeddiad 'Audit Committees - Practical Guidance for Local Authorities & Police' CIPFA, ei gylchredeg ymysg aelodau o'r Pwyllgor hwn er mwyn asesu'r sgiliau, gwybodaeth a meysydd arbenigedd oedd yn bodoli eisoes ymysg yr aelodau ac i adnabod unrhyw fylchau neu ofynion o ran hyfforddiant. Cafodd pedwar holiadur oedd wedi'i gwblhau ei ddychwelyd.<br><br>Dynododd ymateb wyth deg naw y cant o aelodau o'r Pwyllgor hwn bod lefel eu gwybodaeth a'u profiad ar draws y deg datganiad, a ddangosir yn Atodiad A, naill ai yn dda neu'n foddhaol.<br><br>Mae'r canlyniadau'n dangos bod gan aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, at ei gilydd, sylfaen gref o wybodaeth a phrofiad ym meysydd cyfrifoldeb y Pwyllgor hwn.<br><br>Roedd yr holiadur hefyd yn gofyn i aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddangos pa wybodaeth a sgiliau oedd ganddynt a fydd yn ychwanegu gwerth at waith y Pwyllgor. Roedd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn dangos bod yna brofiad a gwybodaeth ar lefelau amrywiol a hynny ar draws pob prif faes. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon yn sail i ddwyn ynghyd raglen ddysgu a datblygu ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Pwysigrwydd dwyn ynghyd Aelodau, Aelodau Lleyg, a swyddogion ynghyd ar gyfer digwyddiad hyfforddiant.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Adolygodd y Pwyllgor yr wybodaeth adborth o'r holiadur hunanasesiad a chadarnhaodd y meysydd dysgu a datblygu oedd yn ofynnol er mwyn bod yn sail i ddatblygu cynllun dysgu a datblygu ar gyfer y Pwyllgor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

## 178. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2023/24 - Drafft

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Pwrpas yr adroddiad hwn, yn ddibynnol ar sylwadau pellach gan Aelodau oedd am i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phenderfynu a oedd yn ffurfio crynodeb cytbwys o'r gwaith yr ymgymerwyd ag o gan y Pwyllgor yn ystod 2023/24 i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Pwysigrwydd pwysleisio'r adnoddau oedd ar gael i'r Pwyllgor er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth, megis atgyfeiriadau at bwyllgorau craffu, a defnyddio barn sicrwydd cyfyngedig er mwyn gallu cyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaeth i mewn i drafod cynlluniau gweithredu.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Yn ddibynnol ar sylwadau pellach gan yr Aelodau i'w cyflwyno erbyn 10 Hydref, bu i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan benderfynu ei fod yn ffurfio crynodeb cytbwys o'r gwaith yr ymgymerwyd ag o gan y Pwyllgor yn ystod 2023/24 i'w gymeradwyo o flaen y Cyngor llawn.<br><br>Cytunwyd yn ogystal:<br><br>• Y dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys disgrifiadau bras o'r aelodau lleyg yn yr Adroddiad Blynyddol.<br>• Y dylai'r adroddiad, er ei fod yn bodoli'n bennaf ar gyfer y Cyngor, gael ei gyhoeddi a'i gylchredeg yn ehangach o fewn y gymuned.<br><br>Dylai fersiwn derfynol o'r adroddiad gael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

## 179. Blaenraglen Waith 2024-25

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Diben yr adroddiad oedd ceisio sicrhau cymeradwyaeth i'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 a ddiweddarwyd.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, trafododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Bod angen rhoi ystyriaeth i hyd agendâu ac adroddiadau, a'r heriau oedd yn wynebu Aelodau wrth geisio gwneud cyfiawnder â hwy ar ran y gymuned.<br>• Bod y gwaith archwilio yr ymgymerwyd ag o gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yn 2023/24 ar Cyfrifo Cyfalaf a'r Gofrestr Asedau gydag Archwilio Cymru o safbwynt y rhaglen gyfalaf a chomisiynu i gael ei adolygu unwaith yr oedd wedi'i gwblhau a bod ystyriaeth yn cael ei roi i p'un a oedd angen gwaith pellach er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr aelod o'r pwyllgor.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2024/25, yn ddibynnol ar ystyriaeth yn cael ei roi i rannu agenda cyfarfod mis Tachwedd ar draws dau gyfarfod cyn y Nadolig, ac y dylai'r Aelod Cabinet a'r swyddogion oedd yn gyfrifol am orfodi parcio fynychu'r cyfarfod nesaf.<br><br>Cytunwyd yn ogystal:<br><br>• Y dylai adroddiad Archwilio Cymru ar gymryd penderfyniadau yn y Cyngor gael ei gyflwyno i'r pwyllgor fis Tachwedd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

## 180. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Medi 2024 |

| | |
|---|---|

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30.